

Menter Ysgolion y
Dreftadaeth Gymreig



Welsh Heritage
Schools Initiative

30

Enillwyr Gwobrau 2022

DYDD GWENER 8 GORFFENNAF, 2022
YN SAIN FFAGAN AMGUEDdfa WERIN CYMRU

www.whsi.org.uk



HODGE
FOUNDATION



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales



Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales





Mae'n bleser gan MENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG ddathlu 30 mlynedd ers trefnu ein cystadleuaeth a'n seremoni wobrwyd gyntaf.

Deil yr amcanion a sefydlwyd yn ôl bryd hynny gan bwyllogor wedi ei gadeirio gan ein Llywydd am Oes, y Fonesig Trotman-Dickenson yr un o hyd. Ein dymuniad yw cymell pobl ifanc mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ac mewn dosbarthiadau a cholegau chweched dosbarth i ymddiddori yn nhreftadaeth Cymru, i werthfawrogi cyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau iddi, ac i helpu i'w diogelu a chyfrannu ati eu hunain.

Eleni, am yr ail flwyddyn bu'n rhaid i ymgeiswyr oresgyn heriau parhaus mewn ysgolion a chyflwyno eu prosiectau ar-lein. Rydym wedi ein calonogi gan barodrwydd nifer arwyddocaol o athrawon, ynghyd â'u disgyblion a'u myfyrwyr, i gofleidio'r dull digidol newydd hwn. Rydym yn edmygu pawb sydd wedi ymgeisio a dylent hwythau fod yn haeddiannol falch o'u cyflawniadau.

Eleni mae'n bleser mawr ein bod yn gallu cynnal seremoni gyflwyno fyw unwaith eto a chroesawu ein noddwyr, athrawon, disgyblion a myfyrwyr i ddathlu'r prosiectau llwyddiannus a grëwyd ganddynt.

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

NEGES O GEFNOGAETH

"Rwy'n falch gallu cefnogi Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Mae'n cyfrannu at yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gan ein pobl ifanc o'u hanes a'u treftadaeth ac yn eu hannog i ymchwilio i, a dysgu o'r gorffennol. Dymuniadau gorau i holl ymgeiswyr y gystadleuaeth flynyddol ar gyfer prosiectau treftadaeth yn ysgolion Cymru."



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



DIOLCH I’N NODDWYR



Casgliad y Werin Cymru
People’s Collection Wales

DIOLCH I’N NODDWYR

Ni fyddai'r gystadleuaeth hon wedi bodoli nac wedi gallu parhau heb gefnogaeth ein noddwyr. Oddi ar ein cystadleuaeth gyntaf mae Sefydliad Hodge wedi bod yn un o'n prif noddwyr ac yn fwy diweddar cafwyd cefnogaeth sylweddol iawn hefyd gan Grŵp Admiral ccc trwy ei sefydliad elusennol, Moondance. Mae grant blynnyddol gan CADW yn arbennig o bwysig i ni, gan ei fod yn helpu cyllido'r costau gweinyddol a ddaw o drefnu'r gystadleuaeth a'r Seremoni Wobrwyd flynyddol.

Derbyniwyd cefnogaeth werthfawr hefyd gan ystod o noddwyr eraill: Amgueddfa Cymru – National Museum of Wales, Casgliad y Werin Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, nifer o gymdeithasau hanes sirol a lleol, sefydliadau cenedlaethol a gwirfoddol eraill ac unigolion hael.



Eleni rydym yn falch iawn cael cefnogaeth noddwr newydd – SWIEET – Ymddiriedolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru.

CYDNABYDDIAETHAU ERAILL

Dymuna ymddiriedolwyr Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ddiolch a mynegi'n gwerth-fawrogiad i nifer o bobl, cwmnïau a chymdeithasau sydd wedi helpu mewn amryfal ffyrdd, nid yn unig trwy gyfraniadau ariannol. Mae aelodau'r pwylgor a'r beirniaid yn rhoi o'u gwasanaeth yn wirfoddol gan fynychu cyfarfodydd, asesu gwaith yr ysgolion, a chefnogi'r seremoni wobrwyd.

Hoffem ddiolch i'r sefydliadau isod sydd wedi cefnogi'r Fenter trwy ddosbarthu ein defnyddiau hyrwyddo:

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiw m Canolbarth y De
EAS - Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru
GwE – Consortiw m Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru – DYSG a Hwb

Rydym yn gwerthfawrogi gwaith Catrin Stevens (cyfeithydd) a Mr David Rees, Seer Design Services sy'n rheoli ein gwefan, ac yn cynhyrchu ein taflenni, ein dystysgrifau a'n llyffryn gwobrwyd.

Delwedd y Clawr: Ysgol Bryn y Môr - enillydd tarian Amgueddfa Cymru - National Museum Wales 2021.



Neges y Cadeirydd

Mae'n faint aruthrol i mi gael bod yn Gadeirydd eleni wrth i Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig gynnal ei 30ain seremoni wobrwyd.

Yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf mae degau o filoedd o ddisgyblion o bob oed, cefndir a gallu, wedi'u hysbrydoli gan eu hathrawon, wedi cymryd rhan mewn prosiectau sy'n archwilio ac yn ymchwilio i gyfoeth ac amrywiaeth eu treftadaeth leol a Chymreig. Maent wedi rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth nid yn unig gyda'u cymunedau lleol ond hefyd gyda'r byd yn ehangach. Pa ffordd well o rannu stori Cymru na thrwy leisiau ein pobl ifanc brwdffrydig?

Mae gennym lawer i fod yn ddiolchgar amdano wrth i ni gyrraedd y garreg filltir arbennig hon, gan gynnwys gweledigaeth y sylfaenwyr, cefnogaeth barhaus y llu o ysgolion sy'n cystadlu'n rheolaidd, ffyddlondeb ein noddwyr a'n cefnogwyr hael, ymrwymiad ein beirniaid a gwaith diflino'r gwirfoddolwyr ar ein pwyllog. Pleser o'r mwyaif yw cael cyfle i ddathlu gyda'n gilydd, yn bersonol yn hytrach nag yn ddigidol, gyflawniadau hynod y disgyblion ac ymrwymiad eu hathrawon yn ein cystadleuaeth eleni. Hynod braff yw cael cynnal ein Seremoni Wobrwyd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Diolch i Amgueddfa Cymru - sefydliad sydd wedi cefnogi'r Fenter ers ei sefydlu yn 1990.

Yn dilyn blwyddyn heriol arall i ysgolion, a pharhad y fformat digidol newydd i'n cystadleuaeth, mae safon y gwaith a gyflwynwyd eleni yn parhau i fod yn uchel. Llongyfarchiadau i chi i gyd am gwblhau prosiectau mor greadigol ac amrywiol a rhannu'r rhain gyda ni.

Mae'r beirniaid wedi gweld rhai engrheiftiau eithriadol o sut mae themâu hanesyddol a threftadaeth wedi'u gwreiddio yng ngofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru. Hoffem longyfarch yr athrawon ar y ffyrdd creadigol y maent yn llywio datblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd eu disgyblion trwy astudio hanes a diwylliant Cymru. Elfen gref a welwyd yn y cynigion yw brwdffrydedd y disgyblion wrth ymholi'n annibynnol i themâu treftadaeth arwyddocaol, a gobeithiwn y bydd hyn yn parhau am y 30 mlynedd nesaf a thu hwnt!

Mae ein Menter yn hynod ddiolchgar ac yn ddyledus i'n holl noddwyr ffyddlon, gan gynnwys Sefydliadau Moondance a Hodge sydd wedi bod yn gefnogwyr hael a thriw ers blynnyddoedd lawer. Mae'r gefnogaeth nid yn unig yn ein galluogi i roi gwobrau hael i ysgolion ond mae hefyd yn rhoi parhad a sefydlogrwydd i'r Fenter a ninnau fel elusen fach yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Eleni rydym yn falch o gyflwyno dwy wobr newydd yn sgil haelioni noddwr newydd, Ymddiriedolaeth Addysgol Sefydliad Peirianwyr De Cymru. Mawr yw ein diolch am gefnogaeth pob un o'n noddwyr a'r rheiny'n amrywio o sefydliadau cenedlaethol, megis CADW a Chasgliad y Werin Cymru, i grwpiau hanes lleol ac unigolion. Diolch i chi i gyd.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl swyddogion, aelodau'r pwyllog, ac yn arbennig yr ymddiriedolwyr eraill, sydd oll yn gweithio'n ddiflino yn y cefndir i sicrhau llwyddiant parhaus y Fenter wrth roi llwyfan i ddisgyblion rannu a dathlu ein treftadaeth.

Angharad Williams

Cadeirydd, Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig





DIOLCH I ATHRAWON A DISGYBLION

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn gwahodd ysgolion babanod, cynradd, ac uwchradd ac ysgolion arbennig a darpariaeth amgen, Colegau Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach i wneud prosiectau treftadaeth a'u cyflwyno ar gyfer cystadleuaeth dreftadaeth genedlaethol.

Mae'r prosiectau hyn yn gofyn am ymchwilio, casglu defnyddiau, dadansoddi a gwerthuso. Gall y deilliannau fod ar ffurf llyfrynnau, arddangosfeydd, perfformiadau dramatig, ffilmiau, animeiddiadau a chyflwyniadau yn defnyddio technoleg ddigidol.

Caiff gwaith y bobl ifanc ei asesu, gan ystyried y lefel briodol o lythrenedd, rhifedd, a sgiliau technoleg gwybodaeth. Anogir disgyblion i ddenu eu cymunedau a phobl o genedlaethau gwahanol i gyfrannu at eu prosiectau, ac i rannu eu darganfyddiadau.

Hoffem ddiolch i'r athrawon a'u disgyblion am gymryd rhan yn y Fenter ac am gyflwyno prosiectau o safon uchel dros ben, er gwaethaf yr amgylchiadau anodd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf hyn.

SEREMONI WOBRWYO YN SAIN FFAGAN AMGUEDdfa WERIN CYMRU

Hoffem ddiolch i Amgueddfa Cymru - National Museum Wales am ganiatâd i ni ddefnyddio Sain Ffagan yn lleoliad ar gyfer ein dathliad yn 2022. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff ar draws y sefydliad am gydweithio i wneud y 30ain seremoni wobrwo yn ddiwrnod o ddathlu i bawb sy'n cymryd rhan ac sydd wedi cefnogi'r fenter.

'MEWN CYMERIAD'

Diolch yn fawr i Eleri Twynog Davies, o 'Mewn Cymeriad' am drefnu sioe hanes byw '10 Stori o Hanes Cymru (y dylai pawb eu gwybod)' ac i Sion Emrys yr actor a fydd yn chwarae'r cymeriadau.

SEFYDLIAD MOONDANCE

Diolchwn yn arbennig eleni i Sefydliad Moondance - galluogodd ei haelioni MYDG i gynnig grant o £150 i bob ysgol sy'n mynchu'r seremoni Wobrwo i dalu am eu costau.

Diolch hefyd i David Rees, Seer Design Services a gynhyrchodd y cyflwyniad Pwerbynt ar gyfer y seremoni.





NODDWYR, GWOBRAU A GRANTIAU

Sefydliad Moondance (Grŵp Admiral c c c) (£12,000 gwobr + £3000 gweinyddu)	£15,000
Sefydliad Hodge	£10,000
Casgliad y Werin Cymru	£1,000
SWIEET Ymddirieolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru	£1,000
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	£600
Archif Menywod Cymru	£300
Into Film Cymru	Gweithdy gwneud ffilm
Gwobr Goffa Catherine a Daniel Phillips	£250
Cymdeithas Hanes Morgannwg, Gwobr Goffa Patricia Moore	£250
Cyfeillion Amgueddfa Caerfyrddin	£250
Mewn Cymeriad In Character	Cyflwyniad dramatig gan gymeriad hanesyddol
Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin	£200
Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch (Gwobr Goffa Trefor Rees & Eric Griffith)	£200
Soroptimydion Rhyngwladol Y Barri a'r Fro	£200
Yr Arglwydd Brooke o Alverthorpe	£200
Costau teithio tuag at ymweliad â Thŷ'r Arglwyddi	
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	Llyfrau a detholiad o ddelweddau o archif CBHC
Cyngor Llyfrau Cymru	Ymweliad gan awdur â'r ysgol fuddugol
Gwobr Goffa Herbert Hewell	£100


Tariannau

Tariannau Amgueddfa Cymru - National Museum Wales
Cyflwynir i'r prosiect gorau ymhob categori

Grantiau a Nawdd mewn da

CADW	£2,000
Seer Design	Cymorth TG

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig *Welsh Heritage Schools Initiative*





AELODAU PWYLLGOR MENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG

Lady Trotman-Dickenson MBE Llywydd Anrhydeddus am Oes
David Maddox OBE Is-llywydd Anrhydeddus am Oes

Angharad Williams

(**Cadeirydd ac Ymddiriedolwraig**)
Cyn-reolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd,
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Dr. Huw Griffiths (Is-gadeirydd)

Arweinydd Addysg, Powys

Dr. Stuart Broomfield (Ymddiriedolwr)

Trysorydd, Cydlynnydd Cyhoeddiadau,
Cyn-ymgynglhorydd Addysg

Alison Denton (Ymddiriedolwr)

Ysgrifennydd Cyswllt Ysgolion
Arholwraig CBAC Hanes a
Gwleidyddiaeth

Gareth Wyn Jones

Ysgrifennydd,
AEM Estyn, (wedi ymddeol)

Catrin Stevens

Cyn-bennaeth Hanes
Coleg y Drindod, Caerfyrddin

Alun Morgan

AEM, Estyn, (wedi ymddeol)

Clive Thomas

Pennaeth (wedi ymddeol)

Gill Foley

Dirprwy Bennaeth (wedi ymddeol)

Jeanne Evans

Cyn-ddirprwy Bennaeth,
Ysgol Gyfun Sant Cenydd, Caerffili

Hefin Matthias

Cyn-bennaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Peter Strong

Cyn-bennaeth Hanes Ysgol Caldicot a
hane sydd lleol

Scott Harper

Pennaeth (wedi ymddeol)

Ben Price

Swyddog Addysg, Cyfranogi a Dehongli
Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Dr Elin Jones

Ymgynghorydd Addysg a darlledwraig

Nia Williams

Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu,
Amgueddfa Cymru – National Museum
Wales

Geraint Bevan

Cyn-ymgynglhorydd Addysg (ERW), (wedi
ymddeol)

Ann Dorsett

Swyddog Amgueddfeydd (wedi ymddeol)

Eleri Evans

Pennaeth Addysgu a Dehongli, Amgueddfa
Cymru – National Museum Wales

Jan Dennis

Cyn-athrawes gynradd Ysgol Gynradd
Cwmlai

Martin Williams

Pennaeth cynorthwyol Ysgol Henry VIII,
Y Fenni

Carole Bryan-Jones

Pennaeth Hanes, Coleg Sant Ioan

Esta Lewis

Goruchwyllydd Gweithredol Gwasanaethau
Treftadaeth ac Allgymorth
Gwasanaethau Treftadaeth Rhondda
Cynon Taf

David Thomas

Pennaeth Gwasanaethau Cyhoeddus
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Rhodri Morgan

Rheolwr Gwasanaethau Addysg
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Sandra Elson

Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol
Cyn-bennaeth Hanes

AELOD ANRHYDEDDUS:

J. Iorwerth Davies

Cyn-is-gyfarwyddwr Addysg
Morgannwg Ganol

BEIRNIAID CYFETHOLEDIG

Hoffem ddiolch i'r beirniaid cyfetholedig hyn am eu cymorth:

Carla Price, Amgueddfa Cymru – National Museum Wales; Gavin Evans, Amgueddfa Caerfyrddin;
Lowri Ifor, Rheolwraig Addysgu Amgueddfa Lechi Cymru; Ladan Harper, Pennaeth (wedi ymddeol)



Enillwyr Gwobrau 2022 Y Cyfnod Sylfaen

Sefydliad Hodge
Gwobr: £800



YSGOL GYNRADD COGAN Bro Morgannwg

*Teitl: Cardiff and Barry Docks: Their Hidden Floral Secrets
(Dociau Caerdydd a'r Barri: Eu Cyfrinachau Blodeuog Cudd)*

Roedd hwn yn brosiect arloesol a diddorol a oedd yn archwilio agwedd ar hanes lleol nad oedd llawer yn gwybod amdani.

Ysbrydolwyd y plant gan daith addysgol yn Nociau'r Barri i ymddiddori yng ngwaith llysieuydd lleol, Royston Smith. Yn yr 1930au darganfu Smith blanhigion egsotig yn tyfu'n naturiol yn, ac o gwmpas, Dociau Caerdydd a'r Barri ac awgrymodd fod y planhigion hynny a oedd yn gynhenid i'r Caribî a rhannau o Asia a'r Affrig wedi eu cludo i dde Cymru gan longau a oedd yn masnachu gyda'r gwledydd pell hyn.

Cynhyrchodd y disgyblion fapiau yn dangos y llwybrau y byddai'r llongau wedi eu cymryd a chymharon nhw ddociau'r cyfnod hwnnw a'r dociau heddiw. Gweithion nhw'n agos gydag artist lleol i gynhyrchu gwaith yn defnyddio ystod o gyfryngau er mwyn ennyn eu diddordeb yn narganfyddiadau'r llysieuydd. Arddangoswyd eu gwaith wedyn yn Oriel Tŷ Turner ym Mhenarth. Bu'r disgyblion yn cyfweld wyres Smith hefyd i ddarganfod mwy am ei ddarganfyddiadau.



Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Fro (Gwobr Goffa Trefor Rees ac Eric Griffith)

Gwobr: £200

Sefydliad Moondance

Gwobr: £150



YSGOL GYNRADD CWMLAI Rhondda Cynon Taf

Teitl: Famous People in Wales (Enwogion yng Nghymru)

Dysgodd y disgyblion am bobl a chymeriadau o Gymru. Cafodd ymchwil dosbarth ei wneud ar Roald Dahl a mwynheuon nhw wrando ar rai o'i storïau. Mwynheuodd pawb sesiwn gyda Mistar Urdd a chanodd y dosbarth cyfan ddatganiad egnïol o 'Hei Mistar Urdd'.

Adnabuwyd unigolion a chynhyrchwyd gwaith ar eu dewis eiconau Cymreig, megis sêr y byd chwaraeon Gareth Bale a Natasha Harding a diddanwyr fel Charlotte Church, Catherine Zeta Jones a Tom Jones. Dilynwyd hyn gan ddarganfod mwy am enghreifftiau mwy lleol a oedd yn bwysig iddyn nhw. Buon nhw'n cysgodi eu côr lleol a chyfweld aelod lleol a gwelwyd mor bwysig yr oedd y côr i'w gymuned. Aethant yn eu blaenau i wneud addewidion i wneud eu bro a Chymru yn lle gwell i fyw ynddynt. Roedd llesiant yn nodwedd ganolog o'r prosiect ac amlygwyd hynny'n gryf yn eu perfformiadau.

Sefydliad Hodge

Gwobr: £350



YSGOL LLAN-NON Sir Gaerfyrddin

Teitl: Beth yw Cymru i mi? – What is Wales to me?

Yn y prosiect hwn, ystyriodd y disgyblion y cwestiwn 'Beth yw Cymru i mi?' trwy ddysgu am nifer o unigolion nodedig o Gymru, gan gynnwys Santes Dwynwen, Mari Jones a'i Beibl, a William Williams Pantycelyn. Dysgodd y plant fwy am emynau trwy wrando ar enghreifftiau a dysgu canu emyn. Ymgorfforwyd canmlwyddiant yr Urdd i'r gwaith, a chreodd y plant addurniadau i'r ystafell ddosbarth a pherfformio cân Mr Urdd. Roedd nifer o gyfleoedd i berfformio a mwynhau cerddoriaeth yn rhan o'r prosiect, a chymerodd y disgyblion ran mewn cyngerdd rhithiol ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Mae'n amlwg i'r plant fwynhau'r prosiect hwn, a chawsant gyfleoedd i werthuso a defnyddio eu gwybodaeth trwy greu cardiau Top Trumps i'w gwerthu, a thrwy ddewis eu symbolau eu hunain i greu bathodynnau i gefnogi eraill i siarad Cymraeg.



Sefydliad Hodge
Gwobr: £350



**YSGOL GYNRADD TREF Y RHYG
Rhondda Cynon Taf**

***Teitl: Homes and Castles in Wales
(Cartrefi a Chestyll yng Nghymru)***

Roedd y prosiect Cartrefi a Chestyll gan Ysgol Gynradd Tref y Rhwg yn ymgais nodedig at greu gweithgaredd trawsgwricwlaidd yn seiliedig ar gestyll, un o nodweddion mwyaf cyfarwydd treftadaeth Cymru. Trwy gyferbynnu cartrefi'r disgylion eu hunain â chastell canoloesol, creodd y prosiect ddealltwriaeth bersonol o newid dros amser a chynyddwyd ymwybyddiaeth o'u cymuned eu hunain. Symbyloedd archwilio deunyddiau adeiladu ac elfennau gwahanol y castell ystyried pam fod cestyll Cymreig yn edrych fel y maent. Gwnaeth cyflwyno cymeriad marchog Cymreig y profiad yn fwy personol, ac arweiniodd at chwarae rôl a datblygu senario wedi eu ffocysu ar fodel trawiadol o gastell. Arweiniodd ymchwil ar y we at ddadansoddi diogelwch ar-lein ac ymestynnwyd gwybodaeth am y pwnc ledled Cymru. Cyflawnwyd y gwaith mewn blwyddyn lle na ellid mynd ar ymweliadau go iawn, hybodd y prosiect ddiddordeb yn nhreftadaeth Cymru ymysg y dysgwyr ifanc hyn.



Enillwyr Gwobrau 2022 Ysgolion Cynradd ac Iau – Prosiectau Ysgol Gyfan

Sefydliad Hodge
Gwobr: £900



Soroptimyddion Rhyngwladol Barri a'r Fro
Gwobr: £200



Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Gwobr: Llyfrau a detholiad o ddelweddau
o archif CBHC*



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

YSGOL GYNRADD RHWS Bro Morgannwg

Teitl: Who Are We As A Nation? Pwy Ydyn Ni Fel Cenedl?

Dechreuodd y prosiect hwn gyda chwestiwn mawr – Pwy ydyn ni fel Cenedl? Yna dewisodd pob grŵp blwyddyn faes astudiaeth yn gysylltiedig â safle dreftadaeth, digwyddiad hanesyddol arwyddocaol, neu ardal leol i ymchwilio'r cwestiwn hwn. Roedd datblygu sgiliau ymholt yn agwedd gref o'r prosiect hwn ac roedd yn amlwg ym mhob grŵp blwyddyn mewn modd addas i'w hoedran. Cynlluniodd pob dysgwr/wraig unigol ymholid bychan a gyfrannai at eu cwestiwn mawr. Penderfynodd y dosbarth derbyn, er enghraift, archwilio eu hardal leol a daethpwyd i'r casgliad ein bod yn dai ac adeiladau wedi eu hymgysylltu gan gludiant. Dewisodd blwyddyn pedwar astudio gorffennol diwydiannol Cymru a dod i'r casgliad ein bod yn fentrus ac yn rhoi gwerth ar hawliau dynol. Gwahoddwyd sawl arbenigwr/wraig i'r ysgol i'w cyfweld. Gofynnodd y disgylion gwestiynau ardderchog. Dangoson nhw empathi wrth drafod cwestiynau sensitif fel trychineb Aberfan a boddi Tryweryn a daethant i gasgliadau meddylgar iawn. Gwnaeth pob plentyn yn yr ysgol gyfraniad gwerthfawr i'r prosiect hwn.



**Casgliad y Werin Cymru
(Gwobr Rhagoriaeth Ddigidol) Gwobr: £500**
Sefydliad Moondance
Gwobr: £500

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales



**YSGOL GYNRADD TY'N Y WERN
Caerffili**

Teitl: Taith Trwy Trethomas

Roedd 'Taith trwy Trethomas' yn brosiect ysgol gyfan a oedd yn caniatáu i'r disgyblion archwilio a dathlu eu treftadaeth leol. Ymchwilion nhw adeiladau gwahanol ac agweddu ar eu hardal, gan ddarganfod storïau a ffeithiau diddorol a'u cyflwyno ar ffilm. Casglon nhw dystiolaeth o ystod o ffynonellau - mapiau ddoe a heddiw, llyfrau log yr Ysgol, cyfweld aelodau teulu.

Awgryma'r cyflwyniadau bod gan y disgyblion wybodaeth ddofn, eu bod wedi mwynhau darganfod am eu bro yn fawr ac yn angerddol dros rannu hyn a'r gymuned yn ehangach. Maent wedi creu taith o gwmpas y pentref gydag wyth lleoliad lle gosodwyd codau QR. Gall y trigolion gael mynediad i'r cyflwyniadau wrth gerdded trwy'r pentref. At hyn mae'r disgyblion wedi mesur y pellter mewn camau rhwng lleoliadau gwahanol i annog pobl i gadw'n iach wrth iddynt gerdded o gwmpas.

Sefydliad Hodge
Gwobr: £900



**YSGOL GYNRADD CWMCLYDACH
Rhondda Cynon Taf**

*Teitl: Family Friendship and Fun: The Changing Face of Childhood in Clydach Vale - (Cyfeillgarwch a Hwyl Teuluol:
Newidiadau ym maes Plentyndod yng Nghwm Clydach)*

Dewisodd disgyblion ymchwilio llawer o agweddu ar fywydau plant yn y gorffennol, megis gemau buarth, dillad, cartwnau ar y teledu, bwyd parti, a datblygiad technoleg. Cyfranogon nhw'n frwdfrydig mewn pwnc a oedd yn uniongyrchol berthnasol iddyn nhw a'u teuluoedd.

Ymchwiliodd pob grŵp oedran ddegawd gwahanol, gyda'r ieuengaf yn edrych ar yr 2000au, y dosbarth derbyn/Bl1 yr 1990au, Bl1/2 yr 1980au a.y.b. Cynhyrchon nhw adborth trwy recordiadau fideo a thystiolaeth ffotograffig o safon addas i'w hoedran. Gweithion nhw yn annibynnol ac fel rhan o grŵp yn enwedig pan oeddent yn cyflwyno eu darganfyddiadau.

Ymchwiliodd y disgyblion ddeunyddiau gemau a theganau hefyd, er enghraift y ciwb Rubic a 'Hungry Hippos'.

Trafodon nhw eu darganfyddiadau gan wneud cysylltiadau â heddiw. Darganfuon nhw fod llawer o'r gemau roedd eu rhieni a'r genhedlaeth hŷn yn eu chwarae a'u mwynhau yn dal yn rhan o fywydau plant heddiw.



Sefydliad Hodge

Gwobr: £900

YSGOL GYNRADD DARRAN PARK Rhondda Cynon Taf

Teitl: Ein Byd Rhyfeddol

Canolbwyniodd y prosiect ar y rhan y mae diwydiant a thechnoleg yn ei chwarae ym mywydau pobl: pwnc arwyddocaol yng Nghymru yn ogystal ag yn ardal yr ysgol. Ystyriodd y disgyblion sut mae eu cymuned wedi newid dros amser oherwydd effaith newidiadau mewn technoleg yn effeithio'r diwydiannau hynny sydd wedi ffurfio'r ardal, yn enwedig y diwydiant glo a'r rheilffyrdd. Defnyddion nhw dechnoleg ddigidol gyfoes i gyflwyno eu darganfyddiadau a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd y prosiect yn amlwg yn seiliedig ar ymholi, gyda phob dosbarth wedi datblygu ei gwestiwn ymholi ei hun, yn seiliedig ar y cwestiwn ysgol-gyfan canolog, a chyfeiriodd y disgyblion yn briodol at y dystiolaeth yr oeddent wedi seilio eu darganfyddiadau arni. Galluogwyd hwy i ddatblygu sgiliau ymchwil ac i gyfathrebu eu darganfyddiadau ar draws ystod o gyd-destunau a chyfryngau. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod disgyblion yn gallu cymhwysyo eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn greadigol, a chydweithio'n effeithiol gydag eraill.

Sefydliad Hodge

Gwobr: £800



YSGOL CARREGHOFA Powys

Teitl: Happy Together, Reaching High For 110 Years (Yn hapus gyda'n gilydd, Ymestyn i fyny am 110 mlynedd)

Edrychodd y prosiect hwn ar hanes y 110 mlynedd ddiwethaf yn Llanymynech ac Ysgol Carreghoffa. Datblygodd y prosiect ddealltwriaeth y disgyblion o dreftadaeth eu cymuned. Roedd yn brosiect wedi ei ymchwilio'n dda a thaniodd eu brwd frydedd.

Bu disgyblion dosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 1 yn cymharu a chyferbynnu hen luniau o'r ysgol ddoe a heddiw yn effeithiol.

Ymchwiliodd pob blwyddyn ysgol agwedd wahanol ar fywyd ysgol. Casglwyd atgofion personol o fywyd ysgol gan gyn-ddisgyblion a chyfweliadau ag aelodau'r teulu. Ymchwiliwyd galwedigaethau pobl leol yn y gorffennol a darganfod bod y mwyafrif yn gweithio mewn amaethyddiaeth.

Ymchwiliodd Blwyddyn 6 ddamwain drêñ a ddigwyddodd yn Llanymynech yn 1908 gan ddefnyddio erthyglau papur newydd a ffynonellau eraill. Ail-grëwyd y ddamwain a gwnaethant eu hymholiad eu hunain i achosion y ddamwain i ystyried ai gyrrwr blinedig iawn oedd ar fai.

Maent yn gobeithio cyhoeddi llyfr o'r atgofion.




Sefydliad Hodge

Gwobr: £600



Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin

Gwobr: £200



YSGOL PENBOYR Sir Gaerfyrddin

Teitl: Llannau'r Filltir Sgwâr - The Square Mile

Cymerodd y prosiect hwn, Llannau'r Filltir Sgwâr, addoldai o fewn ardal yr ysgol yn fan cychwyn. Ymchwiliodd dosbarthiadau gwahanol adeiladau gwahanol, gan gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau. Arweiniodd yr anghysonderau rhwng ffynonellau gwahanol i gwestiynu dibynadwyedd yr wybodaeth a ddarganfuwyd. Buon nhw ar sawl ymweliad, siaradon nhw â llawer o bobl y tu allan i'r ysgol megis gweinidogion a thywyswyr ac ymwelwyd â Sain Ffagan.

Datblygodd disgyblion eu sgiliau ymholi ac ymchwil ac roedd dystiolaeth gref iawn o elfennau ehangach o wybodaeth. Gwnaethpwyd defnydd helaeth o dechnoleg ac roedd hi'n braf gweld sgiliau fel rhifedd, llythrennedd a TGCh wedi eu hymgorffori'n rhwydd mewn astudiaeth o dreftadaeth a hanes lleol. Cyfunwyd yr elfennau gwahanol hyn mewn gwefan.

Rhoddodd priodas ecogyfeillgar ffug gyfle i'r ysgol gyfan ddathlu'r hyn a ddysgwyd.

Sefydliad Moondance

Gwobr: £800



YSGOL GYNRADD BABYDDOL SANT ILLTYD Merthyr Tudful

Teitl: Digging Deep in to Dowlais (Cloddio'n ddyfnach yn Nowlais)

Canolbwyt y prosiect oedd pen-blwydd y Plwyf yn 170 oed, ond tra bod yr eglwys a'r plwyf yn ganolog i'r gwaith, gwnaethpwyd cysylltiadau ehangach â threftadaeth gyfoethog yr ardal. Cymerwyd cyfleoedd i fynd ar ymweliadau a alluogodd y dysgwyr i osod eu cynefin eu hunain mewn cyd-destun ehangach, gan gynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion treftadaeth leol a Chymreig.

Cymhwysodd y disgyblion eu gwybodaeth i greu llinellau amser a thaflenni gwybodaeth. Roedd pwyslais y dystiolaeth ar 'brofiadau dilys bywyd go iawn' a oedd ar gael mewn adroddiadau amrywiol ac a wnaeth argraff ar y disgyblion.

Gwnaethpwyd defnydd da o asiantaethau allanol megis y Llyfrgell a haneswyr lleol, a chyfoethogwyd y gwaith ymhellach trwy ymweld â thirnodau lleol, gan alluogi dysgwyr i ddeall cyd-destun hanesyddol eu cymuned ac adeiladau lleol. Addaswyd ffocws yr ymweliadau hyn i'r grŵp oedran priodol.



Sefydliad Moondance

Gwobr: £800

YSGOL GYNRADD BABYDDOL Y SANTES FAIR Merthyr Tudful

Teitl: Made in Merthyr (Gwnaed ym Merthyr)

Ffocws y prosiect hwn oedd codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin. Cyfranogodd pob grŵp oedran, dros 200 o ddisgyblion, yn llawn yn y prosiect gan gwblhau tasgau addas i'w hoedran. Ymchwiliwyd pobl nodedig a 'wnaed ym Merthyr' neu a gynorthwyodd i 'wneud Merthyr' ar draws yr ystod oedran, gan gynnwys ffigurau fel Laura Ashley, Joseph Parry a Richard Trevithick. Astudiodd dosbarthiadau hŷn CA2 dwristiaeth a thirnodau ym Merthyr.

Hyrwyddwyd y dysgu gan ymweliadau â safleoedd hanesyddol lleol ac ymweliadau gan haneswyr lleol â'r ysgol. Cafwyd cyfleoedd i ddatblygu ystod eang o sgiliau ehangach, megis gwneud defnydd effeithiol o dechnegau ymchwil, gweithio ar y cyd a datblygu sgiliau llafar.

Ymhllith allbynnaur disgyblion roedd recordiadau fideo, ffotograffau, gwaith ysgrifenedig, graffiau a gwaith celf. Roedd y defnydd o TGCh yn amlwg ac yn llwyddiant allweddol y prosiect drwyddo draw, trwy daenleni, siartiau, Minecraft a thrwy ddatblygu eu gwefannau eu hunain erbyn Bl6.

Gwobr Goffa Catherine a Daniel Phillips

Gwobr: £250

Sefydliad Hodge

Gwobr: £100



YSGOL GYNRADD DERI Caerffili

Teitl: Memories of Ysgwyddgwyn (Atgofion am Ysgwydd Gwyn)

Cymerodd yr ysgol olwg ffres ar y pwnc hwn, yn seiliedig ar sylw bod Capel Ysgwydd Gwyn, a gaeodd yn ddiweddar, yn 'ffurf annwyl ar y gorwel yn Deri'. Arweiniodd hyn at ystyried y tirlun o gwmpas y capel yn ogystal â hanes y capel ei hun, a hefyd at ystyried gwaith yr artist Cymreig cyfoes, Martyn Evans. Un o'i baentiadau lliwgar hynod yw un o gapel tebyg iawn i Ysgwydd Gwyn, ac ysbrydolodd ei weledigaeth o dirlun y cwm waith celf bywiog y disgyblion.

Ffocws y prosiect oedd celf a'r tirlun lleol, ond defnyddiodd y disgyblion ystod o dystiolaeth ysgrifenedig, weledol a llafar, gan gynnwys cyfweld aelodau'r gymuned, i ddarganfod mwy am y capel a'i rôl yn y gymuned. Roedd yn amlwg fod y disgyblion wedi ymroi i'r prosiect, a oedd yn uniongyrchol berthnasol iddynt, a chyda'r disgrifiadau a gasglwyd o weithgareddau'r capel.



Sefydliad Hodge

Gwobr: £350

YSGOL GYNRADD WIRFODDOL DAN GYMORTH YR EGLWYS YNG NGHYMRU SANT CHAD, HANMER Wrecsam

Teitl: Ein Pentref, Ein Cynefin

Wedi'i hysbrydoli gan y bardd o Gymro R S Thomas a fu'n gurad yn Eglwys Sant Chad rhwng 1940-1942, cymerodd Ein Pentref, Ein Cynefin gerdd R S Thomas 'The Village' a'i chyflwyno mewn modd personol a chyfoes.

Canolbwyniodd pob grŵp ar agweddau gwahanol o'r ardal, fel eu hysgol, tŷ'r heddlu, yr eglwys a'r teulu Hanmer. Ysgrifennon nhw a pherfformion nhw gerdd ar y thema hon, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal.

Roedd brwdfrydedd y disgylion yn amlwg ac adlewyrchwyd hynny yn eu perfformiadau gan adlewyrchu hefyd eu cariad at eu cymuned, eu treftadaeth leol, eu pentref a'u Cynefin.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwobr: £300



YSGOL GYMRAEG TEILO SANT Sir Gaerfyrddin

Teitl: Santes Dwynwen

Ymchwiliodd y prosiect hwn stori Santes Dwynwen a thraddodiadau hynafol eraill ac ystyriwyd pa rai sy'n berthnasol heddiw.

Roedd yn brosiect bendigedig o greadigol a oedd yn canolbwytio ar lesiant, cyfeillgarwch a chyfraniad pob un at lesiant a charedigrwydd at eraill. Arweiniodd hanes Santes Dwynwen at greu cardiau Santes Dwynwen a phortreadau, gwneud llwyau caru, pobi calonnau ac ysgrifennu caneuon a cherddi.



Welsh Heritage
Schools Initiative



Menter Ysgolion y
Dreftadaeth Gymreig

Enillwyr Gwobrau 2022 Ysgolion Cynradd ac Iau – Prosiectau Dosbarthiadau Unigol a Grwpiau Blwyddyn

Sefydliad Moondance

Gwobr: £1100



‘Mewn Cymeriad’

Gwobr: Gweithdy i ddisgyblion gyda
chymriadau hanesyddol



**YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLWYNCELYN
Rhondda Cynon Taf**

Teitl: Cymru Pawb: Chwalu Ffiniau

Rhoddodd y thema hon gyfle i'r disgyblion archwilio eu hunaniaeth a'u treftadaeth eu hunain yng Nghwm Rhondda trwy ymchwil lleol, holiadur rhieni ac astudio cyfrifiad 2011 cyn ymestyn allan i ddarganfod diwylliannau gwahanol yn Nhre-biwt a thrwy wahodd gwesteion o gefndiroedd gwahanol i'r ysgol. Ar ôl cyfnewid e-byst â disgyblion Ysgol Mount Stuart ym Mae Caerdydd trefnwyd ymweliad â'r ysgol a bu'r profiad hwnnw yn bellgyrhaeddol i'r ddwy garfan o ddisgyblion.

Datblygwyd dealltwriaeth o gysyniadau fel cenedligrwydd, diwylliannau a hunaniaeth trwy amrywiaeth o gyfryngau: cerddoriaeth, celf, dawns, llythrennedd, llafaredd, rhifedd, ffotograffiaeth a pherfformio. Roedd yr arddangosfa ar waliau'r dosbarth a'r llyfrau sgrap yn llawn gwybodaeth bellach am ymwneud uniongyrchol y disgyblion â'r thema hon. Mae'r disgyblion wedi rhannu'r prosiect gyda phrifathrawon yr ardal, eu teuluoedd a'r gymuned. Roedd y prosiect wedi dysgu'r disgyblion fod Cymru yn Gymru i Bawb a bod modd chwalu ffiniau. Prosiect arloesol ac uchelgeisiol.



Sefydliad Moondance

Gwobr: £600



Ymddiriedolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru (Gwobr Gwyn Griffiths am y prosiect gorau am 'faterion gwyrdd')

Gwobr: £500



Into Film Cymru

Gwobr: Gweithdy gwneud ffilm ar gyfer grŵp o ddisgyblion



YSGOL GYNRADD Y GELLI Rhondda Cynon Taf

Teitl: Black Gold (Aur Du)

Roedd astudiaeth Ysgol Gynradd Y Gelli o 'Aur Du' yn wreiddiol ac yn amlwg wedi ysgogi a chyffroi'r disgyblion gan arwain at ddeilliannau creadigol ardderchog. Roeddent wedi amgyffred bod cloddio glo yn rhan anhepgor o'u treftadaeth leol ond at hyn wedi deall y materion cyfoes a rhai'r dyfodol sydd ynghlwm â'r diwydiant glo. Defnyddion nhw ystod eang o ffynonellau, a astudiyd yn feirniadol, i ennill gwybodaeth werthfawr nid yn unig am fwyloddi yn gyffredinol, ond am yr helyntion cymdeithasol ac amgylcheddol a ddaeth yn ei sgil. Darganfuon nhw ddigon o wybodaeth i'w galluogi i holi eu Haelod Seneddol lleol am y tipiau glo ger eu hysgol.

Dehonglodd y disgyblion eu gwybodaeth yn berfformiad creadigol yn defnyddio eu sgliau digidol i greu adroddiadau newyddion ac animeiddiadau am y gorffennol ac am y dyfodol yn y Gelli. Trwy eu hymwneud â'r prosiect galluogwyd hwy i ddod yn ddinas ydion moesegol gwybodus o'r byd trwy astudio hawliau gweithwyr a chynhesu byd-eang.



Sefydliad Moondance

Gwobr: £600



Ymddiriedolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru (Gwobr William Menelaus am y prosiect gorau am dreftadaeth ddiwydiannol)

Gwobr: £500



Cyngor Llyfrau Cymru

Gwobr: Ymweliad gan Awdur



YSGOL GYNRADD FOCHRIW Caerffili

Teitl: The Lost Village of Penybanc (Pentref Coll Penybanc)

Ymgymmerodd y prosiect hwn â her darganfod mwy am bentref 'coll' Penybanc yng Nghwm Darran.

Gwnaeth yr ysgol ymdrech wirioneddol i ymwneud ag 'ymholi hanesyddol' gydol y prosiect hwn, wrth i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithdai fel dosbarth a chydag 'arbenigwyr' i ddatblygu cwestiynau a llinynnau cwestiynu. Defnyddiodd y disgyblion ystod eang o ffynonellau yn cynnwys: hanesion llafar, mapiau hanesyddol, cofnodion cyfrifiad, erthyglau papur newydd, cylchgronau hanesyddol a ffotograffau. Trafodwyd themâu fel 'dilysrwydd' a 'dibynadwyedd' ffynonellau. Enillon nhw ddealltwriaeth ardderchog o hanes ehangach Cwm Darran.

Trwy'r pwnc hwn datblygodd y disgyblion eu gwybodaeth a'u balchder real yn eu cymuned. Mae eu dyhead i goffáu lleoliad Penybanc â phlac i'w gymeradwyo.

Roedd yr ymdeimlad o ddarganfod a brwdfrydedd yn amlwg drwedd a thro, a gwnaeth ymrwymiad llwyr y disgyblion i'w hymholiadau hanesyddol a'u huchelgais i rannu'r hyn a ddysgwyd gryn argraff ar y beirniaid.



Sefydliad Hodge
Gwobr: £1000



Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Gwobr: Llyfrau a detholiad o ddelweddau
o archif CBHC



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

YSGOL GYMRAEG CAERFFILI **Caerffili**

Teitl: Alfred Russel Wallace

Aeth y prosiect hwn i'r afael â bwlch yn y farchnad – adnoddau ar-lein yn yr iaith Gymraeg am Alfred Russel Wallace – gŵr talentog iawn, fforiwr, naturiaethwr, ac anthropolegydd – sy'n adnabyddus yn bennaf am ei syniad chwyldroadol o esblygiad trwy ddetholiad naturiol, a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan Darwin. Cafodd y disgylion gyfleoedd i ddatblygu sgiliau hanesyddol ac eraill a defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i ymchwilio bywyd Wallace. Gosodwyd yr wybodaeth hon yng nghyd-destun oes Victoria.

Cynhyrchodd y disgylion uchelgeisiol, galluog hyn animeiddiad lliwgar, ysbrydoledig yn y Gymraeg am ei fywyd, gan catalogio ei ddarganfyddiadau a'i syniadau am yr amgylchedd, sydd mor berthnasol i gymdeithas heddiw. Mae eu hastudiaeth o Alfred Russel Wallace a'r meysydd hynny y bu'n eu harchwilio yn yr Amazon ac Indonesia, wedi ysbrydoli'r disgylion hyn i ddod yn bencampwyr yr amgylchedd. Maent wedi sefydlu clwb amgylcheddol sydd wedi plannu coed, blodau gwylt a gosod bocsys nythu i adar a phryfed ar dir yr ysgol.



Sefydliad Hodge

Gwobr: £550

Cymdeithas Hanes Morgannwg

(Gwobr Goffa Patricia Moore)

Gwobr: £250



YSGOL GYNRADD TREFORYS Abertawe

Teitl: War and Bravery – The Swansea Three-night Blitz (Rhyfel a Dewrder – Blits Tair-noson Abertawe)

Yn sicr llwyddodd y prosiect hwn, gyda'i bwyslais ar y celfyddydau mynogiannol, i gyffroi plant Ysgol Gynradd Treforys a darparodd brofiad a fydd yn aros gyda hwy am flynyddoedd eto.

Gan weithio gyda thîm o bobl broffesiynol, dysgodd y disgyblion am Flits tair-noson Abertawe trwy astudio a thrafod ystod o ffotograffau a gwrando ar yr awdur, Manon Eames, yn darllen o'i gwaith am y pwnc. Anogwyd hwy i ystyried rôl menywod yn nhermau bwyd, dogni a gofalu am anghenion eu teuluoedd yn gyffredinol.

Dangosodd disgyblion eu hempathi â'r teuluoedd a fu'n byw trwy'r cyfnod, trwy gyfansoddi a pherfformio barddoniaeth, sgriftiau drama a chân.

Mewn gweithgaredd cysylltiedig ymwelodd y disgyblion â'r Parc Coffa lleol, lle buon nhw'n helpu i chwynnu'r ardal a pharatoi daliwr planhigion i gynrychioli'r ysgol.

Sefydliad Hodge

Gwobr: £600



YSGOL CASBLAIDD Sir Benfro

Teitl: Capten William Davies Evans

Amlygodd disgyblion Ysgol Casblaidd lwyddiant unigolyn a gafodd ei eni a'i fagu yn lleol, Capten William Davies Evans. Gan ei fod yn gymharol anadnabyddus roedd prinder gwybodaeth amdano, a dangosodd y disgyblion ddyfalbarhad wrth ymchwilio ffynonellau amrywiol a oedd yn cynnwys deunyddiau a dderbyniwyd trwy law disgynyddion teulu'r Capten. Oherwydd eu dycnwch llwyddwyd i gasglu digon o wybodaeth i gyflwyno portread cyflawn o fywyd William Davies Evans, ynghyd ag esboniadau am ei ddyfeisiadau: system oleuadau trilliw i ddiogelu llongau ar y môr, a symudiad gwyddbwyl a adwaenir yn swyddogol fel yr "Evans Gambit". Dangosodd y disgyblion falchder amlwg yn llwyddiannau'r morwr o Gasblaidd ac yn ogystal â dathlu ei fywyd trwy greu murlun parhaol yn yr ysgol, sicrhauodd y plant y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ymwybodol o'r hyn a gyflawnodd Evans, drwy gydweithio gyda Chyngor Cymuned Llantyddewi i osod plac mewn parc lleol i'w goffáu.



Sefydliad Moondance

Gwobr: £250



YSGOL GYNRADD GLADSTONE Caerdydd

Teitl: Cymru, Gwlad y Gân

Canolbwyniodd y prosiect hwn, gyda dosbarth aml-ddiwylifiant lle siaredir pymtheg o ieithoedd gwahanol, ar y berthynas rhwng Cymru a chân/cerddoriaeth.

Gweithiodd y disgyblion yn annibynnol ac ar y cyd, gan edrych ar ystod o fathau o gerddoriaeth a phenderfynu sut y mae cerddoriaeth wedi chwarae, ac yn dal i chwarae, ei rhan mewn cymaint o agweddau ar fywyd Cymru, gan gynnwys chwaraeon, y gymuned a chymdeithas yn gyffredinol. Nodwyd ei effeithiau ar forâl a llesiant.

Gwnaeth y disgyblion ymchwil ar y rhyngrywd a rhannwyd eu darganfyddiadau gyda'u cyfoedion. Cafwyd rhagor o wybodaeth trwy gyfweld â rheolwr llwyfan Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac aelod o Only Boys Aloud.

Dysgwyd a pherfformiwyd caneuon a dawnsfeydd gwerin Cymru. Teimlai'r beirniaid y dylid cymeradwyo defnydd y plant o'r iaith Gymraeg.

Sefydliad Moondance

Gwobr: £250



YSGOL GYNRADD TREORCI Rhondda Cynon Taf

Teitl: Curiosities of Cymru (Cywreinbethau Cymru)

Canolbwyniodd y prosiect ar chwedlau a mythau o ardal yr ysgol ac o'r gorffennol diweddar. Defnyddiodd y disgyblion y syniad o "newyddion ffug" i gwestiynu dibynadwyedd ffynonellau a thystiolaeth am y digwyddiadau yr oeddent yn eu hymchwilio. Gan weithio mewn grwpiau, ymchwilion nhw hanes dau baffiwr lleol a oedd wedi teithio ar y Titanic, ac a foddodd yn y drasiedi ac agweddau ar Derfysgodd Tonypandy. Rhannon nhw eu darganfyddiadau gyda grwpiau eraill.

Yn ystod y prosiect defnyddiodd y disgyblion ffotograffau o'r ardal o ddechrau'r ugeinfed ganrif a'u cymharu â'r un lleoliadau heddiw. Darganfuon nhw wybodaeth hefyd am yr hawliau a enillodd glowyr, gan gynnwys gwella amodau gwaith, a Hawliau Plant heddiw.



Sefydliad Moondance

Gwobr: £150



YSGOL GYNRADD BRYN AWEL Caerffili

Teitl: Hair Raising History (Hanes i Godi Gwallt Pen)

Canolbwyniodd y prosiect hwn ar steiliau gwalt gwahanol yn ystod yr ugeinfed a'r unfed ganrif ar hugain a'r newid yn yr offer a ddefnyddir i steilio gwalt. Defnyddiodd disgyblion y llyfrgell leol a'r rhyngrywyd ar gyfer eu hymchwil a chynhyrchwyd llinellau amser i ddangos y newidiadau. Gweithion nhw gyda thri arbenigwr i ymestyn eu gwybodaeth ac i gynhyrchu deilliannau creadigol - gwyddonydd, hyfforddydd drama ac artist. Cynorthwyodd yr hyfforddydd drama'r disgyblion i archwilio diwylliant ac amrywiaeth trwy lafaredd, drama a gwaith ysgrifenedig a bu'r artist yn eu helpu i greu gwaith celf yn ymwneud â steiliau gwalt gwahanol.

Cyflwynodd y disgyblion eu gwaith i'r ysgol gyfan mewn gwasanaeth.



Enillwyr Gwobrau 2022 Ysgolion Uwchradd

Sefydliad Moondance
Gwobr: £600



**Casgliad y Werin Cymru
(gwobr Rhagoriaeth Ddigidol)**
Gwobr: £500


Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Gwobr yr Arglwydd Brooke
*Gwobr: £200 o gostau teithio tuag at ymweliad
â Thŷ'r Arglwyddi*

YSGOL BRO PEDR
Ceredigion

Tewt: Balchder Bro, Ein Cynefin

Ffocws y prosiect arloesol hwn oedd creu uned o waith newydd ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 i gyfateb â gofynion y Cwricwlwm newydd. Ceir yma dymor o waith yn canolbwytio ar bedair llinell ymholi - Ai tref fechan efo stori fawr yw Llambed? Pedair wal yn unig yw adeilad, a yw hynny'n deg? A oes dyfodol i'r dref? Nid yw'r dref yn ddim byd heb bobl? Mae'n amlwg trwy'r uned waith bod yr ysgol wedi mynd ati i blethu pynciau'r dyniaethau - Hanes, Daearyddiaeth, Busnes, Cymdeithaseg ac Addysg Grefyddol gyda'i gilydd er mwyn datblygu 'balchder bro' ymhliith y disgyblion. Cafwyd cyfoeth o ddefnydd trwy ymchwilio i adeiladau, pobl a straeon y dref. Aeth yr ysgol ati i ddefnyddio amrywiol ddulliau ymholi a braf oedd gweld y disgyblion yn recordio'r hyn yr oedden nhw wedi'i ddarganfod trwy ysgrifennu creadigol, murlun/mosaig dosbarth, gwefan ar Google Sites a Minecraft. Mae'r 'balchder' y mae'r disgyblion yn ei deimlo tuag at eu cynefin yn cael ei amlyu'n glir iawn yn y fideo ac roedd hi'n bleser mawr ei weld.



Sefydliad Moondance

Gwobr: £800



Archif Menywod Cymru

Gwobr: £300

ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE WALES

YSGOL BRO EDERN Caerdydd

Teitl: Hanes Menywod o Gymru a Swffragetaid o Gaerdydd

Prosiect ymchwil blwyddyn 8 a 9 i Hanes Merched Cymru a Swffragetaid o Gaerdydd. Aeth y disgyblion ati i greu eu gwefan eu hunain ar gyfer y prosiect er mwyn ei rhannu'n hawdd gyda disgyblion eraill a'r gymuned ehangach. Mae'r athrawon wedi penderfynu defnyddio'r wybodaeth y mae disgyblion wedi'i chasglu i greu uned o waith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 sy'n dod i'r ysgol ym mis Medi fel rhan o'u huned waith newydd ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru a fydd yn galluogi disgyblion i ddysgu am hanes lleol a hanes ymgrych y Swffragetaid yng Nghymru. Cryfder amlwg y gwaith hwn yw bod cymaint o'r ymchwil hanesyddol wedi'i wneud gan y disgyblion eu hunain. Braf hefyd yw nodi bod y disgyblion wedi cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau TGCh trwy ddefnyddio pob math o wefannau digidol megis Canva a sleidiau carnifal i ddatblygu delwedd eu gwefan.

Sefydliad Moondance

Gwobr: £300



Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwobr: £300



YSGOL GYFUN DYFFRYN TAF Sir Gaerfyrddin


Teitl: How big a deal was Whitland Abbey? (Pa mor bwysig oedd Abaty Hendy-gwyn?)

Roedd hi'n ddiddorol gweld yr ysgol yn dewis safle hanesyddol a fu gynt yn ddim ond rhan o'r amgylchedd, lle ceid rhedeg traws-gwlad - roedd y disgyblion wedi canolbwytio ar ddarganfod cymaint o wybodaeth â phosibl i benderfynu pa mor bwysig oedd Abaty Hendy-gwyn ac i ddyfnhau eu hymdeimlad o'u cynefin. Gwnaethon nhw ymchwil eang i hanes yr Abaty a chwblhawyd amrywiaeth o dasgau i ddod i ganlyniad. Edrychodd y disgyblion ar yr Abaty o safbwynt ei harwyddocâd crefyddol. Arweiniodd astudio ymweliad Archesgob Caergaint gyda Gerallt Gymro hwy i ystyried agwedd yr Eglwys ar ryfel; trafodwyd hefyd a oedd y fath beth â "rhyfel cyfiawn" ac a oedd hi'n bwysig cadw safleoedd hanesyddol. Gwnaethpwyd placiau coffáu i ddathlu ymweliad Gerallt ac amlygwyd eu barnau mewn tasgau ysgrifenedig. At hyn, siaradon nhw â'r lleianod a'r swyddogion a oedd yn trefnu 'Diwrnodau Agored'. Mae ffotograffau yn dangos i'r disgyblion fwynhau'r diwrnod hwn.



Cyfeillion Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

Gwobr: £250



YSGOL MAES Y GWENDRAETH Sir Gaerfyrddin

Teitl: Merched Beca

Mae pedwar disgybl ym mlwyddyn 9 yn aelodau o'r clwb hanes. Maent yn cyfarfod y tu allan i wersi ac maent wedi sefydlu cysylltiadau ag ysgol gyfrwng-Cymraeg arall, i ddatblygu prosiect ar Ferched Beca. Derbynion nhw gwestiynau ymchwil oddi wrth ddisgyblion Gwynllyw a gweithion nhw i gynhyrchu arddangosfa ddeniadol a fideo yn manylu ar ddeilliannau eu hymchwil. Maent wedi datblygu lefel dda o wybodaeth fanwl a chywir am Ferched Beca. Yn eu tro anfonodd disgyblion Maes y Gwendraeth gwestiynau am Derfysgoedd Casnewydd a mudiad y Siartwyr at ddisgyblion Ysgol Gwynllyw i'w hymchwilio. Er mai dechrau'r daith yw hyn, mae hwn yn ddull diddorol, sef cael disgyblion un ysgol yn gweithio ar y cyd mewn partneriaeth ag ysgol arall er mwyn cyfnherthu'r dysgu. Mae Terfysgoedd Beca yn ddigwyddiad hanesyddol arwyddocaol a gafodd gryn effaith ar orllewin Cymru.

Sefydliad Moondance

Gwobr: £250



YSGOL GYFUN GWYNLLYW Torfaen

Teitl: Terfysg Casnewydd

Mae pymtheg o ddisgyblion blwyddyn 8 yn aelodau o glwb hanes sy'n cwrdd y tu allan i amser gwensi. Maent wedi ymgyslltu ag ysgol gyfrwng-Cymraeg arall yn Sir Gaerfyrddin, Ysgol Maes y Gwendraeth, i ddatblygu prosiect ar Derfysgoedd Casnewydd a Mudiad y Siartwyr. Derbynion nhw gwestiynau gan ddisgyblion yr ysgol bartner ar y thema hon tra anfonodd disgyblion Gwynllyw gwestiynau ar Derfysgodd Beca i ddisgyblion Maes y Gwendraeth. Er mai dechrau'r daith yw hyn, mae hwn yn ddull diddorol, sef cael disgyblion un ysgol yn gweithio ar y cyd mewn partneriaeth ag ysgol arall er mwyn cyfnherthu'r dysgu. Ymddengys y disgyblion yn frwd frydig ac maent wedi datblygu lefel addas o wybodaeth am y pwnc hwn o ystyried eu hoedran a'u gallu. Maent yn ymwybodol o arwyddocâd Terfysgoedd Casnewydd a Mudiad y Siartwyr yn datblygu democraciaeth yng Nghymru. Mae'r disgyblion wedi datblygu sgiliau TG addas ac wedi cynhyrchu fideo, ac maent yn gweithio ar wefan, sydd heb ei chwblhau ar hyn o bryd, i rannu eu gwaith yn ehangach.



Enillwyr Gwobrau 2022

Addysg Arbennig a Darpariaeth Amgen

Sefydliad Hodge

Gwobr: £1100



**YSGOL PEN-Y-BRYN
Abertawe**

Teitl: Swansea Copperopolis (Copropolis Abertawe)

Gwnaeth lefelau ymroddiad a brwdfrydedd yr holl ddisgyblion a welwyd yn y fideo argraff fawr ar y beirniaid. Roedd y prosiect yn amlwg wedi eu cyffroi i gyd. Cyfathrebodd disgyblion yr holl gyfnodau allweddol eu gwybodaeth fanwl yn effeithiol iawn. Gwnaethant gysylltiadau cryfion rhwng camau cynhyrchu copr ac ystod y defnydd a wneid o gynhyrchion copr, a nodwyd y gysylltiadau rhwng copr a'u hardal, megis sefydlu Treforys gan John Morris i gartrefu ei weithwyr. Defnyddiodd disgyblion CA5 brofiadau morwyr fel y Cape Horners a Benjamin Davies i gyfansoddi siantis môr a'u recordio i'w gwerthu. (Aeth yr elw ar waith y Groes Goch yn Wcráin). Gwnaeth disgyblion CA4 ail-luniad Minecraft. Rhwng popeth, roedd yn brosiect wedi'i gynllunio'n dda ac a oedd yn cynnig profiadau cyfoethog, aml-haenog ac amlsynhwyraidd i'r holl ddisgyblion ac a'u galluogodd i gaffael gwybodaeth a sgiliau arwyddocaol.



Sefydliad Hodge

Gwobr: £700



YSGOL HEOL GOFFA Sir Gaerfyrddin

Teitl: Does unman yn debyg i Lanelli!

There is nowhere like Llanelli

Dehonglodd prosiect Ysgol Heol Goffa dreftadaeth mewn modd eang i roi profiadau i'w trwytho yn nhreftadaeth a diwylliant eu cynefin i'r holl ddisgyblion. Gallai'r beirniaid weld yn y fideo ddatblygu sgiliau cyfathrebu'r holl ddisgyblion, ffocws penodol y prosiect, mae'n amlwg. Mwynheuon nhw'r dulliau amlsynhwyraidd a gymerwyd gan y prosiect. Creon nhw gollages, gwneud bocsys adar, cyfansoddi cerddoriaeth Gymreig, dyluniwyd taith dreftadaeth Llanelli, ysgrifennon nhw ffeil o ffeithiau am chwaraewyr rygbi Cymreig, a bwydon nhw loi ac eistedd ar dractor ar fferm leol hyd yn oed. Roedd hi'n arbennig o drawiadol sut y datblygodd y prosiect brofiadau dilys i'r disgyblion trwy ymweliadau a thrwy adeiladu ar gysylltiadau cymunedol solet gyda'u hardal, megis y llyfrgell, ceidwaid bywyd gwylt ar gronfa ddŵr leol a fferm leol.

Sefydliad Moondance

Gwobr: £300



YSGOL BRYN DERW Casnewydd

Teitl: Cestyll Cymru

Roedd y prosiect ysgol gyfan hwn yn canolbwytio ar agweddau gwahanol o gestyll. Datblygodd rhai disgyblion eu sgiliau creadigol a datrys-problem trwy fodelu ac adeiladu cestyll. Datblygodd rhai eraill eu sgiliau cyfathrebu, trwy gydweithio ar ymchwilio. Mwynheuodd y disgyblion chwarae'r rôl i geisio meddwl pwy fyddai wedi byw mewn castell efallai, a chynllunion nhw goronau i'w gwisgo. Defnyddiodd disgyblion hŷn dechnoleg i archwilio cestyll trwy ddelweddau a storïau synhwyraidd a defnyddion nhw ystod o eirfa newydd i ysgrifennu eu storïau am gestyll. Mwynheuodd disgyblion alw i gof gestyll y gwyddent eu henwau, neu yr oeddent wedi ymweld â nhw cyn hynny gyda'u rhieni, a bu'r arddangosfa o gestyll y dosbarth o'r wythnos ffocws yn llwyddiant mawr. Gwnaeth ymrwymiad yr holl ddisgyblion i'r prosiect argraff arbennig ar y beirniaid ynghyd â'r modd yr oedd y gweithgareddau a'r deilliannau mor gydweithredol ac wedi datblygu sgiliau i fod yn annibynnol (deilliont hanfodol y prosiect).



TARIANNAU

Cyflwynir tariannau Amgueddfa Cymru –
i'r ymgais orau ym mhob categori.


**Y Cyfnod Sylfaen
YSGOL GYNRADD COGAN**

**Ysgolion Cynradd ac Iau – Prosiectau Ysgol Gyfan
YSGOL GYNRADD RHWS**

**Ysgolion Cynradd ac Iau – Prosiectau Dosbarth a Grŵp
Blwyddyn
YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLWYNCELYN**

**Addysg Arbennig a Darpariaeth Amgen
YSGOL PEN Y BRYN**

**Ysgolion Uwchradd
YSGOL BRO PEDR**






GWOBR EUSTORY

Mae EUSTORY yn rhwydwaith anffurfiol o fudiadau anlywodraethol sy'n cynnal cystadlaethau hanes yn seiliedig ar ymchwil ar gyfer pobl ifanc yn Ewrop. Cafodd yr rhwydwaith ei sefydlu gan Sefydliad Körber yn yr Almaen ac mae'n cysylltu 28 gwlad.

Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn aelod ohono a hi yw'r unig aelod o'r Deyrnas Unedig. Ymhlið y gwledydd eraill a gynrychiolir mae yr Almaen, Iwerddon, Georgia, Israel, Portiugal, Gwlad Pwyl, Estonia, Slofenia, y Swistir a'r Eidal.

Ar gyfer gwobr hanes MYDG EUSTORY, gwahoddwyd myfyrwyr BI12 a BI13 i gyflwyno prosiect unigol, yn gysylltiedig â threftadaeth Gymreig ac yn seiliedig ar ymchwil, dadansoddi a gwerthuso.

Mae'r enillydd yn derbyn gwobr ariannol unigol ac i'w hyssol ac at hyn gellir ymgeisio am ymuno â gweithgareddau ieuengtaid blynnyddol EUSTORY gydag Ewropeaid ifainc eraill. Oherwydd y cyfyngiadau cyfredol caiff rhaglenni EUSTORY eu trefnu ar fformat rhithiol yn 2022.





ENILLYDD GWOBR 2022

FFION THOMAS
Ysgol Gyfun Gŵyr

Gwobr Goffa Herbert Hewell.

Gwobr: £100 gwobr unigol.

Sefydliad Moondance
Gwobr: £100 i'r ysgol.



*Teitl: Ymchwilio effeithiau'r Iaith Gymraeg ar
ddatblygiad gwybyddol.*